# Amserlen Diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyllid

Mehefin 2020

Ar 18 Mai 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyllid.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 2 Gorffennaf 2020.

Ar 8 Mehefin 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Trefnydd i ddiwygio'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, o ganlyniad i'r ffaith bod amserlen Senedd y DU wedi cyflymu, a phennu dyddiad cau newydd sef 18 Mehefin 2020.